



Cyngor Wreccsam

TELERAU AC AMODAU CYLLID GRANT AR GYFER LLEOLIADAU GOFAL PLANT 2018-21

Bydd cymeradwyo a thalu Grant neu gymorth ariannol i sefydliad gwirfoddol, menter breifat neu gorff cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau canlynol, ynghyd ag unrhyw amrywiaethau neu amodau arbennig eraill y gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam eu pennu yn ysgrifenedig adeg ei gymeradwyo. O fewn y Telerau ac Amodau hyn, dyma ystyr y geiriau canlynol:

Grant	Y swm neu'r symiau a nodir yn y llythyr cynnig.
Derbynnydd y Grant	Y sefydliad neu'r corff a enwir yn y llythyr cynnig.
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam	(y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel y Cyngor)

Cyffredinol

- 1 Mae unrhyw gynnig Grant yn agored i'w dderbyn o fewn 30 diwrnod i ddyddiad y llythyr cynnig Grant, oni nodir yn wahanol. Bydd Derbynnydd y Grant yn derbyn yr holl delerau ac amodau hyn yn ysgrifenedig cyn i unrhyw Grant gael ei dalu, a bydd yn cydymffurfio â'r trefniadau monitro a nodir ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y Grant a'r Llythyr Cynnig.
- 2 Dim ond at y diben a gymeradwywyd yn y llythyr gan y Cyngor yn cynnig y grant y ceir defnyddio unrhyw grant a ddyfernir. Pan na nodir dibenion o'r fath yn y llythyr hwnnw, y dibenion a gymeradwywyd fydd y rhai hynny a nodwyd gan y ("derbynnydd grant") yn y ffurflen gais a'r fanyleb gwasanaeth ac unrhyw atodiad y cytunwyd arno. Fodd bynnag, gellir diwygio'r dibenion hynny a gymeradwywyd drwy gytundeb ysgrifenedig rhwng y Cyngor a derbynnydd y grant. Y dibenion hynny a nodwyd yn y ffurflen gais, y fanyleb gwasanaeth ac unrhyw atodiad y cytunwyd arno fydd y safbwynt sylfaenol bob tro. Yn yr achosion hynny lle bydd y Cyngor yn penderfynu bod cytundeb gwasanaeth yn ddymunol, mae'n bosib y bydd rhaid i dderbynnydd y grant arwyddo cytundeb gwasanaeth cyn y gellir rhyddhau'r grant.
- 3 Caiff unrhyw grant ei ddyfarnu yn ddibynnol ar y wybodaeth a roddir yn y ffurflen gais a'r fanyleb gwasanaeth ac unrhyw wybodaeth atodol a roddir gan dderbynnydd y grant. Os bydd derbynnydd y grant yn cam-gyfleu mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys cuddio neu gelu gwybodaeth berthnasol, gallai'r Cyngor yn ôl ei ddisgresiwn benderfynu bod hynny'n golygu eu bod wedi methu cydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn.
- 4 Bydd y ffurflen gais, y fanyleb gwasanaeth ac unrhyw wybodaeth atodol y cytunwyd arni, ynghyd ag unrhyw lythyr cynnig, ffurflen dderbyn a chytundeb gwasanaeth (os oes angen), yn ffurfio sail gyflawn y grant. Ni fydd unrhyw sylwadau llafar gan dderbynnydd y grant yn cael eu hymgorffori fel un o amodau na thelerau cynnig na derbyn y grant nag unrhyw ran ohono.
- 5 Ni fydd dyfarnu'r grant mewn un flwyddyn ariannol (1 Ebrill hyd at 31 Mawrth) yn golygu sicrwydd y caiff y grant ei ddyfarnu ar gyfer y flwyddyn ddilynol, os nad yw telerau'r cynnig ffurfiol yn nodi hynny. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ymrwymadau a wneir gan dderbynnydd y grant wrth ddisgwyl grant nad yw wedyn yn cael ei ddyfarnu.

- 6 Pan fydd grant yn daladwy mewn rhandaliadau, mae'n bosib na chaiff rhandaliad neu randaliadau neu ran ohonynt eu talu os yw derbynnydd y grant yn methu bodloni'r Cyngor ei fod wedi cael ei ddefnyddio, neu y bydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol, ar gyfer y diben y cytunwyd arno'n unig, neu os yw'r Cyngor yn ystyried nad yw unrhyw rai o delerau ac amodau eraill y grant yn cael eu cyflawni, neu dan yr amgylchiadau a nodir isod.
- 7 Ni ddylid defnyddio unrhyw ran o'r grant er dibenion plaid wleidyddol, ac ni fydd unrhyw elfen o'r gweithgareddau sy'n derbyn cymorth grant yn wleidyddol yn ei fwriad, ei ddefnydd, na'i gyflwyniad.
- 8 Dim ond os nad yw derbynnydd y grant wedi ei gofrestru at ddibenion Treth ar Werth (TAW) neu lle gall brofi na all adfer y cwbl neu ran o'r TAW gan Gyllid a Thollau EM y gellir derbyn cymorth grant tuag at TAW.
- 9 Os bydd unrhyw newid i unrhyw wybodaeth a ddarperir i'r Cyngor yn ystod y broses ymgeisio cyn i unrhyw grant gael ei ddyfarnu, rhaid i dderbynnydd y grant roi gwybod i'r Cyngor ar unwaith.
- 10 Ni chymeradwyir grant yn ôl-weithredol fel arfer i brosiectau sydd eisoes yn mynd rhagddynt, gwaith sydd wedi ei wneud neu offer sydd wedi ei brynu cyn dyddiad y cais. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ystyrir y fath gais. Bydd derbynnydd y grant yn ad-dalu unrhyw grant a ddefnyddir yn ôl-weithredol yn ddjarwybod i'r Cyngor neu heb ei ganiatâd.
- 11 Fel mater o arfer da, bydd derbynnydd y grant yn gwneud pob ymdrech i gael cymorth cyllidol o amrywiaeth o ffynonellau ac yn ceisio peidio dibynnu'n llwyr ar y Cyngor am gyllid.
- 12 Yn ei ddeunydd hyrwyddo, bydd derbynnydd y grant yn cydnabod y cyfraniad ariannol a wnaed tuag at ei weithgarwch gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Ond ni fydd derbynnydd y grant yn defnyddio logo hawlfraint y Cyngor ar unrhyw ddeunydd hyrwyddo na dogfennau oni fydd wedi cael caniatâd penodol ymlaen llaw i'w ddefnyddio mewn unrhyw leoliad gan y Cyngor.

Gweld Llyfrau ac Ymddygiad Priodol

- 13 Bydd derbynnydd y grant yn gadael i'r Cyngor weld ei holl lyfrau, cyfrifon a thalebau, gan gynnwys cyfriflenni Banc, sieciau wedi eu dychwelyd a bonion sieciau o fewn 2 ddiwrnod gwaith i unrhyw gais, neu cyn gynted ag sy'n bosib wedi hynny. Drwy dderbyn y grant neu ran ohono, mae derbynnydd y grant yn rhoi awdurdod i'r Cyngor fynd at Fanc neu Gyfrifydd derbynnydd y grant ac yn rhoi caniatâd diamed i'r Banc neu'r Cyfrifydd hwnnw ddarparu unrhyw wybodaeth i'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw drafodion a wnaed gan dderbynnydd y grant. Mae derbynnydd y grant yn rhoi caniatâd i'r Cyngor ddarparu copi o'r ffurflen gais, y fanyleb gwasanaeth, y llythyr cynnig, y ffurflen dderbyn a'r telerau ac amodau hyn i'r Banc neu'r Cyfrifydd hwnnw er mwyn cadarnhau'r sefyllfa.
- 14 Bydd derbynnydd y grant yn cydymffurfio â thelerau unrhyw les, cytundeb tenantiaeth neu drwydded a gyda'i oblygiadau cyfreithiol a statudol (e.e. caniatâd cynllunio, diogelu data, cyfle cyfartal, gwahaniaethu ar sail hil, rhyw ac anabledd, deddfau a rheoliadau iechyd a diogelwch a thrwyddedu) a allai effeithio'i weithgarwch. Ym mhob achos, ni ddylai gymryd unrhyw gamau gweithredu na hepgor unrhyw beth yn fwriadol na thrwy esgeulustod a allai olygu cam-ymgeisio neu wastraffu arian grant. Pan fydd gweithgarwch derbynnydd y grant yn golygu gweithio gyda phlant a phobl ifanc, rhaid i dderbynnydd y grant sicrhau bod yr unigolion y mae'n trefnu i gysylltu neu i weithio gyda hwy wedi cael gwiriadau trylwyr i sicrhau eu bod yn addas, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel y bo'n briodol.

Offer

- 15 Pan fydd y grant neu unrhyw ran ohono'n cael ei ddefnyddio gan dderbynnydd y grant i brynu neu gaffael unrhyw fuddiant mewn unrhyw ased (gan gynnwys tir ac adeiladau, cerbydau, dodrefn neu offer), a bod yr ased neu'r buddiant hwnnw wedyn yn cael ei waredu neu'n gorffen cael ei ddefnyddio at y diben a gymeradwywyd wrth ei brynu, rhaid i dderbynnydd y grant ad-dalu'r Cyngor, os yw'r Cyngor yn gofyn iddo wneud hynny. Rhaid iddo ad-dalu gwerth llawn yr

ased ar y farchnad ar ddyddiad y gwarediad neu ddyddiad gorffen ei ddefnyddio ar gyfer diben a gymeradwywyd, neu am swm is y mae'r Cyngor yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt yn penderfynu sy'n gyfran deg o'i werth ar y farchnad.

Yswiriant

- 16 Mae derbynnydd y grant yn gyfrifol am yswirio rhag unrhyw risgiau a allai godi mewn cysylltiad ag eiddo derbynnydd y grant neu unrhyw weithgarwch y mae derbynnydd y grant yn ei wneud sy'n cael cymorth rhannol neu gyfan gwbl gan grant y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys unrhyw golled neu niwed personol i staff neu wirfoddolwyr sy'n cael cymorth grant sy'n cymryd rhan yn y gweithgarwch hwnnw. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn i dderbynnydd y grant gyflwyno unrhyw ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â pholisïau yswiriant i'w harchwilio. Ni fydd y Cyngor o dan unrhyw amgylchiadau yn gyfrifol am unrhyw hapddigwyddiad sy'n ymwneud ag eiddo neu weithgarwch y mae wedi darparu grant llawn neu rannol ar ei gyfer. Derbynnydd y grant sy'n gyfan gwbl gyfrifol am unrhyw hapddigwyddiadau, a bydd yn trefnu yswiriant priodol ar gyfer pob math o amgylchiadau drwy bolisïau yswiriant boddhaol. Mae derbynnydd y grant yn gwarantu'r Cyngor yn erbyn pob cost a hawliad yn hynny o beth.

Cyflogaeth

- 17 Ni ddylai derbynnydd y grant dan unrhyw amgylchiadau, drwy weithred neu anweithred, achosi i unrhyw un o weithwyr neu wirfoddolwyr derbynnydd y grant gredu bod perthynas weithio yn cael ei chreu neu'n bodoli rhwng y gweithiwr neu'r gwirfoddolwr hynny â'r Cyngor.
- 18 Bydd derbynnydd y grant yn cydymffurfio bob amser gyda'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â chyflogaeth, cysylltiadau llafur ac iechyd a diogelwch yn y gwaith. Bydd derbynnydd grant sydd â gweithwyr yn cynnal Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr.

Cyfrifon

- 19 Bydd derbynnydd y grant yn cadw cyfrifon cyfredol yn barod i gael eu harchwilio gan y Cyngor ar unrhyw adeg. Rhaid i'r cyfrifon hyn fod wedi eu llunio yn unol â'r arfer gorau a argymhellwyd. Dylid defnyddio blwyddyn ariannol 1 Ebrill - 31 Mawrth lle bo'n bosib, os nad yw natur gweithgarwch derbynnydd y grant yn atal hyn.
- 20 Rhaid i'r holl gyfrifon nodi'n glir grantiau'r Cyngor ac unrhyw grantiau eraill a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno, a bydd yr holl gyfrifon wedi'u paratoi mewn modd sy'n dangos i ba ddiben y defnyddiwyd y grant gan dderbynnydd y grant.

Cadw Cofnodion

- 21 Bydd angen cadw cofnodion ariannol sy'n ymwneud â gweithgareddau a ariannwyd gan y Cyngor am gyfnod o 6 mis o leiaf ar ôl y flwyddyn ariannol y maent yn berthnasol iddi.
- 22 Rhaid cadw tystiolaeth neu ddata monitro, gwerthuso ac ymchwil sy'n berthnasol i weithgareddau a ariannwyd gan y Cyngor, gan sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio gan Swyddogion y Cyngor am gyfnod o 12 mis ar ôl i'r cyllid gan y Cyngor ddod i ben.

Monitro Cynnydd a Phrosesu Data

- 23 Rhaid i dderbynnydd y grant gydymffurfio â'r trefniadau monitro fel y maent wedi eu gosod yn Llythyr Cynnig y Cynllun Grant y maent yn gwneud cais amdano.
- 24 Bydd derbynnydd y grant, ar gais, yn adrodd yn ysgrifenedig i'r Cyngor am weithrediad a chynnydd y dibenion y dyfarnwyd y grant ar eu cyfer. Bydd derbynnydd y grant, heb godi tâl, yn caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion y Cyngor ar unrhyw adeg resymol ymweld â'i safle ac/neu arolygu ei weithgarwch ac/neu archwilio a chymryd copïau o lyfrau cyfrifon a dogfennau neu gofnodion eraill derbynnydd y grant y gallai'r swyddogion hynny fod o'r farn eu bod yn berthnasol mewn unrhyw ffordd i'r modd y mae derbynnydd y grant yn defnyddio'r grant. Nid yw'r amod hon yn rhagfarnu ac mae'n ddarostyngedig i unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill y gall unrhyw swyddog, gwas neu asiant eu harfer.

- 25 Bydd derbynnydd y grant yn darparu unrhyw wybodaeth arall o'r fath i'r Cyngor ynglŷn â'i weithgareddau neu weithgareddau arfaethedig, ac ynglŷn â'i ddefnydd neu ddefnydd arfaethedig o'r grant neu unrhyw ran ohono, fel y bydd ei angen o bryd i'w gilydd. Bydd gan y Cyngor hawl i ddefnyddio'r wybodaeth hon a'r holl wybodaeth a ddarperir iddo ynglŷn â'r grant gan dderbynnydd y grant, fel mae'n ei ystyried yn addas.
- 26 Caiff yr holl wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen gais, neu ran o'r wybodaeth honno, ei chadw ar gyfrifiadur, ac mae derbynnydd y grant yn rhoi caniatâd i unrhyw wybodaeth bersonol sy'n cael ei dal o dan Reoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 gael ei phrosesu, ar yr amod bod y data'n aros yn gyfrinachol i dderbynnydd y grant a Swyddogion ac Aelodau perthnasol, ac eithrio pan fo'r gyfraith yn caniatáu datgelu data. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio ar gyfer gweinyddu ceisiadau grant ac ar gyfer dadansoddi ystadegol.

Rheolaethau Ariannol

- 27 Rhaid i dderbynnydd y grant sicrhau bod rheolaethau ariannol digonol yn bodoli bob amser e.e. sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu, bod llyfrau a chofnodion yn cael eu cadw'n briodol, bod angen dau lofnod ar gyfrifon banc a bod dogfennaeth atodol yn cael ei chadw er dibenion archwilio (gweler yr adran cadw cofnodion).
- 28 Rhaid i'r holl dderbynwyr grant gyflwyno Tystysgrif Gwariant os yw'r grant yn £10,000 neu'n fwy, sy'n disgrifio gwariant cymwys yn erbyn y grant a ddyfarnwyd. Dylai derbynwyr grantiau sy'n derbyn llai na £10,000 gyflwyno Datganiadau Elw a Cholled. Os nad yw'r grant yn cael ei wario ar gyfer y dibenion a gymeradwywyd, h.y. nid yw'n wariant cymwys, yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol, gall y Cyngor adfer y swm sydd heb ei wario yn ystod neu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno ac/neu gall gymryd hynny i ystyriaeth wrth benderfynu ar swm y grant sydd i'w dalu yn y flwyddyn ariannol ddilynol. Ni chaniateir cario arian drosodd.
- 29 Ni chaiff derbynnydd y grant neilltuo unrhyw ran o'r grant i drydydd parti heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor o flaen llaw.
- 30 Rhaid i dderbynnydd y grant roi gwybod i'r Cyngor cyn gynted ag y daw'n amlwg bod tanwariant o'r grant yn debygol. Gall y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, roi caniatâd ysgrifenedig i ddefnyddio'r swm sydd heb ei wario er dibenion eraill a gymeradwywyd.
- 31 Ni fydd y Cyngor na'i swyddogion na'i asiantiaid yn atebol ar unrhyw adeg i unrhyw unigolyn mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi o safbwynt datblygu, cynllunio, adeiladu, gweithredu, rheoli ac/neu weinyddu'r gwasanaeth/prosiect a gefnogir gan y grant. Yn benodol, ond heb gyfyngiad, ni fyddant yn atebol i dderbynnydd y grant am unrhyw golled na difrod a achoswyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i gydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant, gan gynnwys unrhyw golledion neu gostau sy'n codi o ganlyniad i fethu gwneud taliadau grant ar unrhyw ddyddiad y cytunwyd arno.

Os yw derbynnydd y grant yn cael ei ddirwyn i ben neu'n cael ei ddiddymu (gan gynnwys derbyn gorchymyn gweinyddu); yn mynd i law'r derbynnydd; yn mynd yn fethdalwr; yn cymodi neu'n gwneud trefniant arall ynglŷn â'i ddyledion gyda'i gredydwyr; neu'n debygol, ym marn y Cyngor, o fethu talu ei ddyledion, yna yn achos un o'r digwyddiadau hynny bydd gan y Cyngor hawl i adfer y grant a dalwyd yn ddi-oed gan dderbynnydd y grant. Ni fydd unrhyw arian ychwanegol yn ddyledus nac yn daladwy gan y Cyngor i dderbynnydd y grant nac i unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran neu yn ei enw. Bydd unrhyw gyfeiriadau at swm y grant sydd wedi ei dalu neu sydd i'w dalu i dderbynnydd y grant yn golygu ac yn gyfyngedig i'r swm o arian a dalwyd mewn gwirionedd i dderbynnydd y grant gan y Cyngor adeg unrhyw un o'r digwyddiadau y cyfeirir atynt uchod.

- 32 Os caiff grant ei ddyfarnu i ddarparwr gofal plant sy'n gweithredu o adeilad nad yw'n eiddo i'r darparwr na'r Cyngor, bydd gofyn i'r darparwr a landlord yr adeilad arwyddo cytundeb pellach sy'n nodi cyfrifoldebau pob parti o ran y cyllid a dderbyniwyd. Bydd y cytundeb hwn yn rhoi manylion unrhyw ofynion i ad-dalu'r arian os bydd:

- y darparwr yn rhoi'r gorau i ddarparu'r cynnig gofal plant yn yr adeilad hwnnw
- y landlord yn dod â les y darparwr ar yr eiddo i ben.

Derbyn ac Ad-dalu Grant

- 33 Mae unrhyw gynnig grant yn agored i'w dderbyn o fewn 30 diwrnod i'w ddyddiad oni nodir yn wahanol. Ni thelir unrhyw ran o'r grant gan y Cyngor nes bydd derbyniad ysgrifenedig wedi ei dderbyn. Os na fydd derbyniad wedi ei dderbyn o fewn yr amser hwnnw, ystyrir bod y cynnig wedi cael ei dynnu'n ôl ond gellir ei ail-gynnig yn ôl disgrisiwn y Cyngor.
- 34 Gall y Cyngor, yn ôl ei ddisgrisiwn, newid, canslo neu atal dros dro unrhyw gymeradwyaeth grant neu geisio ad-daliad o unrhyw grant sydd eisoes wedi ei dalu, naill ai'n llwyr neu'n rhannol (yn gymesur â'r amser sydd wedi mynd heibio ers cadarnhau'r cyllid) os:-
- (I) bydd unrhyw un o'r Telerau ac Amodau Safonol hyn, ac/neu unrhyw un o'r amodau arbennig sy'n gysylltiedig â'r Grant, yn cael eu torri;
 - (II) bydd derbynnydd y grant yn rhoi'r gorau i fodoli neu'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth y dyrannwyd y grant ar ei gyfer o fewn 5 mlynedd i dderbyn y cyllid drwy'r ffrwd gyllido grant hon;
 - (III) bydd y Cyngor wedi cael ei gymell i ddyfarnu'r grant o ganlyniad i dderbyn unrhyw wybodaeth anghywir neu gamarweiniol gan dderbynnydd y grant;
 - (IV) bydd derbynnydd y grant wedi methu â rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newid pwysig i wybodaeth a ddarparwyd ganddo eisoes, neu os yw derbynnydd y grant neu unrhyw un o'i swyddogion, gweision neu asiantiaid wedi ymddwyn yn anonest neu'n esgeulus er anfantais i'r prosiect y rhoddwyd y cymorth grant ar ei gyfer;
 - (v) bydd derbynnydd y grant yn newid neu'n cael gwared ar ei reolwyr neu bersonél sy'n gyfrifol am y gwasanaeth sydd wedi derbyn cymorth grant, neu'n newid ei leoliad o'r hyn a nodwyd yn y ffurflen gais a'r fanyleb gwasanaeth heb ganiatâd y Cyngor.
- 35 Y prif gyswllt sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl adroddiadau, derbynebaw a dogfennaeth atodol yn cael eu dychwelyd i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd CBSW o fewn y terfynau amser a nodwyd.
- 36 Y prif gyswllt sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl anghenion adrodd a nodir yn y Telerau ac Amodau hyn, gan gynnwys mynychu cyfarfod diweddar, yn cael eu cyflawni ar amser ac er boddhad Swyddog(ion) dynodedig y Cyngor.

Cytundeb Telerau ac Amodau Safonol

Derbynnydd y Grant

Rwyf i/ Rydym ni yn cydnabod ac yn derbyn y Telerau ac Amodau a amlinellir yn y ddogfen sydd ynghlwm.

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Enw (llythrennau bras): _____

Sefydliad: _____

Swydd o fewn y Sefydliad (Rheolwr / Rheolwr Gyfarwyddwr ac ati):

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Enw (llythrennau bras):

Tricia Bridgewater

Swydd o fewn y Sefydliad:

Swyddog Arweiniol Atal a Datblygu Gwasanaethau